PROSIECT:

# CYMUNED HOLT – UWCHRADDIO HWB ECO AC ADNEWYDDU RHANDIR

YMGEISYDD: GERDDI CYMUNEDOL HOLT

NIFER Y RHANDDEILIAID A FU'N YMWNEUD Â'R PROSIECT
**26**

LLEOLIAD
**HOLT, WRECSAM**

CYFANSWM GWERTH Y PROSIECT
**£10,231.28**

## Y GRONFA CYMUNEDAU GWYRDD

Bwriad y Gronfa Cymunedau Gwyrdd, a weinyddir gan asiantaeth datblygu gwledig Cadwyn Clwyd, yw cefnogi gwelliannau i weithgareddau awyr agored ar gyfer y gymuned, a'r adnoddau cysylltiedig.

Gan ddefnyddio'r grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant, rhoddwyd cymorth i 30 o ardaloedd yn siroedd Dinbych, Conwy, Y Fflint a Wrecsam i drawsnewid llecynnau awyr agored yn fannau lle bydd bywyd gwyllt yn ffynnu a chreu mannau dymunol i fyw, gweithio a chwarae ynddynt.

Mae rhai grwpiau wedi dewis gosod systemau ynni adnewyddadwy megis paneli solar i ostwng allyriadau carbon a helpu i leihau biliau tanwydd.



## Y PROSIECT

Mae Garddwyr Cymunedol Holt (Holt Community Gardeners - HCG) yn grŵp o wirfoddolwyr sydd wedi trawsnewid rhandir oedd wedi gordyfu i greu hwb eco mewn gardd y gall trigolion lleol ei mwynhau unwaith eto.

Roedd y garddwyr yn awyddus i gyflwyno gwelliannau pellach, yn cynnwys darparu rhagor o fatris storio ynni, codi ail dwnnel polythen, adeiladu gweithdy newydd a gosod tyrbin gwynt.

Y prosiect pentrefol hwn yw un o brif lwyddiannau'r Gronfa Cymunedau Gwyrdd, a weinyddir gan Gadwyn Clwyd.



## NODAU'R PROSIECT

Yn y pen draw, bwriad Garddwyr Cymunedol Holt yw galluogi pawb i fwynhau garddio, dod â'r gymuned at ei gilydd a hybu lles corfforol a meddyliol wrth gyfrannu at lwyddiant yr hwb eco.

Dymuniad y grŵp oedd:
- Cynyddu maint ac amrywiaeth yr arlwy trwy wella strwythur y rhandir
- Darparu rhagor o fatris storio ynni
- Cael mynediad at ffynhonnell ynni wahanol
- Cynyddu nifer y gwirfoddolwyr

CYMUNEDAU GWYRDD
GREEN COMMUNITIES

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## GWEITHGAREDD

Mae'r gwirfoddolwyr wedi codi twnnel polythen newydd i warchod planhigion yr hwb eco.

Gosodwyd rhagor o fatris storio er mwyn cynhyrchu digon o bŵer at ddefnydd y gweithdy newydd a darparu rhagor o drydan i rannau eraill o'r ardd.

Defnyddiwyd grant Cymunedau Gwyrdd tuag at gost tyrbin gwynt 300w, i atgyfnerthu'r ynni a gynhyrchir gan baneli solar presennol y grŵp.

Er mwyn gwarchod yr offer garddio'n well, mae'r grŵp wedi codi sied storio newydd sbon yn lle'r hen sied oedd wedi gweld dyddiau gwell.

Gan weithredu yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, defnyddiwyd peth o'r arian i uwchgylchu bonyn coeden oedd wedi syrthio i greu cerflun o bluen gan arlunydd lleol yn defnyddio lli gadwyn.

Ychwanegwyd gosodiad o asiad gwydr a choed i'r ardd er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial y gofod cymunedol.

Meddai Bob Campbell, trysorydd Garddwyr Cymunedol Holt: "O ran yr amgylchedd, gobeithio ein bod yn llwyddo i wneud cyfraniad bach at les ein planed.

"Mae ein gwaith yn yr ardd wedi'n gwneud yn fwy ymwybodol o fyd natur, a'r pethau y gall bob un ohonom eu gwneud i'w warchod."



"MAE'R GRANT A GAFWYD GAN CADWYN CLWYD WEDI EIN HELPU I DRAWSNEWID EIN GARDD GYMUNEDOL, A HYNNY YN EI DRO WEDI ARWAIN AT GYNYDDU NIFER Y GWIRFODDOLWYR A DOD Â THRIGOLION Y PENTREF YN NES AT EI GILYDD."

***- PETER BOSTOCK***

## CANLYNIADAU

Mae'r gerddi'n ffynnu a'r twnnel polythen a'r batris storio newydd yn golygu fod digon o warchodaeth a gwres i blanhigion ffynnu ym mhob tywydd.

Wrth ddathlu llwyddiant gwaith adfer ac ehangu'r hwb eco, meddai Bob: "Mae ein prosiect wedi dod i sylw cenedlaethol, a chefais fy ngwahodd i siarad am ein gwaith gan Cymru yn ei Blodau yng Ngerddi Bodnant."

Ychwanegodd trefnydd y grŵp, Peter Bostock: "Buom yn cydweithio'n agos ag Ysgol Gynradd Holt, ac wrth i'n menter dyfu cawsom ragor o gyfleoedd i ddangos i'r disgyblion sut i ofalu am fyd natur."

*Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.*